Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 29 Hydref 2019

Presennol: J. Roberts (Cadeirydd); A. Mummery, A. Jones, G. Parry, S. Edwards, I Gruffydd, R. Meirion Jones, A. Williams, G. C. Jones, E. Parry, D. Jones, H Ellis.
Cynghorydd Sirol R. Williams

		Gweithred	**Dyddiad**
1.0	**Ymddiheuriadau.** H. Huws**.**		
	Er gwybodaeth – Y Cadeirydd wedi mynychu diwrnod agored yn Llu Awyr y Fali'n ddiweddar I weld yr awyrennau newydd sy'n cael eu defnyddio yno. G.C. Jones wedi cynrychioli'r Cyngor Bro yng ngwasanaeth Sul y Cadeirydd ym Moelfre.		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**. – G.C. Jones yn datgan fod ei fab yn byw drws nesaf i'r tŷ sydd â cais cynllunio dan sylw.		
3.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
3.1	Y Ganolfan Iechyd – cais cynllunio i'w gyflwyno yn y dyfodol agos.		
3.2	Dwr Cymru wedi cynnal cyfarfod oherwydd 6 – 9 o doriadau i'r cyflenwad dwr yn y misoedd diwethaf. Nodwyd hefyd fod Dwr Cymru yn meddwl fod dwr yn cael ei ddwyn. Newidiadau ar y gweill gan Dwr Cymru.		
3.3	Adroddwyd ar broblemau gyda cerbydau morwrol ar y Fenai yn bennaf yn ardal Porthaethwy. Adrodd unrhyw broblemau i Gynghorydd Robin Williams.		
3.4	Gwaith i gychwyn ar y safle i deithwyr yn Star mis Chwefror 2020.		
3.5	Tŷ Clud I agor yn Llanfairpwll i ddau o blant gydag anghenion dwys.		
3.6	G. C. Jones wedi anfon nodiadau o gyfarfod Un Llais Cymru, ymddiheuriad gan y Clerc am beidio a'u rhannu. Adroddodd ar newidiadau o Gynghorau Tref a Chymuned.		
3.7	Tyrbinau gwynt – sylwadau i'r ymgynghoriad ar lein erbyn 15/11/19.		
4.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 24 Medi 2019** J. Roberts yn cynnig, G.C. Jones yn eilio, derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
5.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
5.1	Swydd Gofalwr – Ifan Williams wedi'i benodi ac wedi cychwyn ar ei waith.		
5.2	Defibrillator – y bocs wedi'i osod. Carwyn Parry, Trydanwr wedi adrodd fod y bocs trydan angen sylw cyn gosod y peiriant yn ei le.		
5.3	Goleuadau Maes Aml Bwrpas – Trydanwr wedi adrodd fod y goleuadau wedi pydru a bydd angen eu adnewyddu. Awgrymu gosod goleuadau LED. Nodwyd fod y gost o archebu goleuadau LED yn uwch ond eu bod yn fwy effeithlon.	Clerc i ofyn i C. Parry gael pris am oleuadau LED.	
5.4	Safle We – yn weithredol unwaith eto.	A. Jones/Clerc I gyfarfod I sicrhau fod yr holl ddogfennaeth gorfodol yn gyfredol.	
5.5	Llinellau Melyn – Y Clerc wedi methu cael ymateb drwy ebost priffyrdd. Gyrru ebost uniongyrchol i Huw Percy.	Clerc	
5.6	Offer Maes Chwarae – rhannau wedi'u archebu ond 6 wythnos i ddisgwyl am ddyddiad derbyn.	Clerc/G.C Jones i drefnu gosod y rhannau.	
6.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Y Fynwent 15/10/19**		

	Cynigwyd gan G. Parry ac eiliwyd gan A. Williams. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
7.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
7.1	Faniau cwmni adeiladu'n cael eu parcio ar y safle. Y Clerc wedi anfon negeseuon i'r cwmni sy'n gweithio yn Pig y Rhos ond y broblem yn parhau.	Clerc i lythyru prif swyddfa'r cwmni.	
8.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Cyllid 15/10/19** Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
9.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
9.1	Cytundeb Cylch Meithrin ar gyfer defnydd Y Gorlan – Angen ymateb gan y Cylch ynglŷn a chytundeb gyda'r ysgol I gynnal clwb ôl ysgol yn yr adeilad. Wedi derbyn yr ymateb anfon copi o'r cytundeb i'r Cylch Meithrin i'w lofnodi.	Clerc	
9.2	Bancio ar lein – Clerc I weithredu	Clerc	
9.3	Gwresogi'r Clwb Snwcer – cael prisiau ar gyfer newid y gwresogyddion.	Clerc	
10.0	**Cyfrifon a Thaliadau Hydref 2019** Cyflwynwyd taenlen gwariant yn erbyn y gyllideb a rhestr o dderbyniadau a thaliadau mis Hydref 2019. Cytunwyd i ychwanegu 2 fil I'r daenlen: £18.50 am dorch ar gyfer gwasanaeth Sul y Coffa £120 G. L. Roberts am dorri coed helyg. Cynigwyd gan A. Williams ac eiliwyd gan A. Mummery. Derbyniwyd y taenlenni a chytunwyd i'r taliadau.		
11.0	**Awdit 2016/17 a 2017/18**		
11.1	Derbyniwyd adroddiad terfynol gan Swyddfa Awdit Cymru. Derbyniwyd y sylwadau ond nodi bod nifer o'r argymhellion bellach wedi'u gweithredu. Clerc i greu calendr o weithrediadau am y flwyddyn er mwyn sicrhau fod y gwaith gofynnol yn cael ei gwblhau/ adolygu'n rheolaidd.	Clerc	
12.0	**Maes Parcio'r Gors**		
12.1	S. Edwards wedi cael gwybodaeth ynglŷn a chreu maes parcio talu ac arddangos. Angen mwy o wybodaeth am y gwahanol opsiynau sydd ar gael.	S. Edwards	
13.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
13.1	2 Hendy, Lôn Four Crosses – dim sylw. Ni chymerodd G.C. Jones ran yn y drafodaeth.		
14.0	**Gohebiaeth**		
14.1	John Weston – Pecynnau coed i'w plannu. Ymateb nad oes gan y Cyngor Bro dir priodol ar gyfer plannu coed.		
15.0	**Materion Brys**		
15.1	Gwasanaeth Sul y Coffa yng Nghapel Rhos Y Gad am 10.00yb Dydd Sul 10/11/19 i'w ddilyn gyda gwasanaeth ger cofeb y cloc am 10.50yb		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 26 Tachwedd 2019 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …….. Dyddiad